

Rhaglen Llwg Dros y Gwyliau – Haf 2018
“Rhannwch eich cinio.” Cyngor Sir Y Fflint mewn
partneriaeth â chynghorau tref a chymuned leol a
Llywodraeth Cymru

**Ar safle cynllun chwarae am 6 wythnos gwyliau'r haf – 23 Gorffennaf i 31 Awst
(Dydd Llun i ddydd Gwener) ac eithrio Dydd Llun Gŵyl y Banc, 27 Awst, 2018**

Mae Cyngor Sir y Fflint ar fin rhoi Rhaglen Llwg dros y Gwyliau – “Rhannwch eich Cinio” ar waith. Mae'r rhaglen hon yn amcan y mae Sir y Fflint yn bwriadu datblygu fel rhan o'i strategaeth a chynllun gweithredu tlodi bwyd.

Mae Cyngor Sir y Fflint, mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Cymdeithas Tai Clwyd Allyn a Travis Perkins yn mynd i'r afael â thlodi bwyd.

I blant sy'n derbyn prydau ysgol am ddim mae pryd poeth yn cael ei ddarparu bob diwrnod ysgol yn ystod tymor yr ysgol. Yn ystod chwe wythnos gwyliau haf, nid yw hyn ar gael iddynt.

Er mwyn helpu i daclo'r sefyllfa annerbyniol hon, mae Cyngor Sir y Fflint a'i phartneriaid wedi uno â “Can Cook” er mwyn lansio rhaglen uchelgeisiol “Rhannwch eich Cinio” gyda'r nod o ddarparu oddeutu 800 o brydau'r diwrnod dros chwe wythnos gwyliau'r haf i gynlluniau chwarae ar draws Sir y Fflint. Mae hon yn fenter enfawr a'r cyntaf o'i math yn y rhanbarth.

Bydd ymgyrch haf ‘Rhannwch eich Cinio’ yn ein helpu i sicrhau bod cymaint o blant â phosib yn dychwelyd i'r ysgol yn faethlon, yn cymryd rhan ac yn barod i weithio.

Mae lleoliadau wedi eu nodi yn unol â data prydau ysgol am ddim er mwyn targedu ardaloedd lle byddai prinder pryd ysgol am ddim yn fwy arwyddocaol, rhestrir y rhain isod:-

Bydd angen i rieni a gofalwyr gwblhau ffurflen ganiatâd er mwyn cael mynediad at y gwasanaeth, ynghyd â ffurflen ganiatâd ar gyfer y cynllun chwarae. Dewch â'r ffurflenni gyda chi i ymweliad cyntaf eich plentyn i'r cynllun chwarae.

Safleoedd Bore: 10:30 am -12:30 am

Quayplay, Pentref Plant Central Park Cei Connah
10:00am - 11:45am (Hwb darpariaeth) Bydd angen
i blant gofrestru o flaen llaw ar gyfer y cynllun hwn
01352 744034

Albert Avenue, Y Fflint
Ysgol Maes Glas, Maes Glas
Pen y Maes, Treffynnon
Ysgol Gynradd Trelogan
Parkfields, Yr Wyddgrug
Caeau Chwarae Mancot
Safle Sealand Manor

Safleoedd Prynawn: 1:30 pm -3:30 pm

Maes Pennant, Mostyn

Ysgol Merllyn, Bagillt
Dee Cottages, Y Fflint
The Holway
Gronant
Pen y Maes, Treffynnon
Gas Lane, Yr Wyddgrug
Saltney Ferry
Sandycroft
Garden City
Caeau Chwarae Gary Speed, Aston
Shotton 33 Field

Rhaglen Llwg Dros y Gwyliau – Cynllun Chwarae'r Haf 2018

Ffurflen Ganiatâd rhiant/gofalwr

Mae elusen a chegin bwyd 'Can Cook' yn rhan o raglen Rhannwch eich Cinio Gogledd Cymru. Yr haf hwn byddent yn darparu prydau poeth ffres i 20 o'n cynlluniau chwarae. Ni allwn addasu na newid y bwyd, ond mae angen i'ch plentyn fod yn ymwybodol o'u halergedd bwyd a sicrhewch eich bod yn eu hamlygu ar y ffurflen

Alergenau i'n hysbysu ni amdanynt yw: (Ticiwch os oes angen i ni wybod)

- Grawnfwyd yn cynnwys glwten, gwenith, rhyg, haidd, ceirch
- Cramenogion (e.e. corgimwch, crancod, pysgod cregyn)
- Wyau
- Pysgod
- Cnau mwnci
- Ffa soia
- Llefrith
- Cnau e.e. almon, cnau collen, cnau Ffrengig, cnau cashiw, cnau pecan, cnau Brasil, cnau pistasio, cnau macadamia.
- Seleri (yn cynnwys seleriac)
- Mwstard
- Sesami
- Bleiddlys (yn cynnwys hadau'r blaidd, blawd, rhai bara, toes a pasta)
- Molysgiaid (e.e. cregyn bylchog, cregyn gleision, gwichiaid moch, wystrys, malwod a sgwid)
- Arall (nodwch)

Darparwch y wybodaeth canlynol ar gyfer y tîm chwarae haf:

Dyddiad Geni:

Enw'r Plentyn:
Rhyw: Merch/Bachgen (rhowch gylch o amgylch un)
Cyfeiriad:
Oedran:
Ffôn Cartref:
Ffôn symudol:
Ffôn Gwaith:

Safle(oedd) Cynllun Chwarae

Rwy'n cadarnhau fy mod yn awdurdodi i fy mhleintyn/plant gael cinio yn y cynllun chwarae

Cadarnhaf fy mod wedi darllen a chwblhau'r ffurflen uchod yn gywir ac os bydd unrhyw fanylion yn newid, byddaf yn rhoi gwybod i un o'r gweithwyr chwarae ar unwaith.

DEDDF DIOGELU DATA: Caiff unrhyw wybodaeth bersonol a ddarperir gennych ei gadw a'i ddefnyddio ac/neu ei brosesu yn ôl yr angen gan Gyngor Sir y Fflint ar gyfer y diben o wneud ei swyddogaeth gyhoeddus, ar gyfer monitro cyfle cyfartal ac ar gyfer atal a darganfod trosedd, yn cynnwys marchnata gwasanaethau. Mae'n bosib y bydd eich gwybodaeth bersonol yn cael ei datgelu a'i darparu i bartïon allanol pe baent yn dangos achos rhesymol dros ddatgelu ac i'r graddau y mae'r gyfraith yn ei ganiatáu. Rwy'n cytuno y gallai unrhyw wybodaeth neu ddata yr wyf yn ei ddarparu gael ei ddefnyddio a'i rannu o fewn Cyngor Sir Y Fflint at y dibenion uchod.

LLOFNODWYD: DYDDIAD: